



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.



Cyfarfod: Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu
 Lleoliad: Ysgol Preseli, Crymych
 Dyddiad: 6 Tachwedd 2018
 Amser: 12:30 – 15:30



<u>Aelodau:</u>	Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau (CHTh) Mrs Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (CM) Y Prif Gwnstabl Mark Collins (MC) Mr Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (CC)
<u>Hefyd yn Bresennol:</u>	Y Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro Richard Lewis (DBG/DD) Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro Vicki Evans (PGC/DD) Y Swyddog Staff Jayne Butler (JB) Miss Mair Harries, Cymorth Gweithredol, SCHTh (MH) Emma Northcote, Adran Gyfathrebu'r Heddlu (EN)
<u>Arsylwyr</u>	Yr Athro Ian Rolfe, Y Panel Heddlu a Throseddau (IR) Y Cynghorydd William Powell, Y Panel Heddlu a Throseddau (WP) Y Cynghorydd Michael James, Y Panel Heddlu a Throseddau (MJ)
<u>Ymddiheuriadau:</u>	Mrs Beverley Peatling, Prif Swyddog Ariannol (BP) Y Dirprwy Brif Gwnstabl Darren Davies (DBG)

CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 06/08/2018		
Rhif y Cam Gweithredu	Crynodeb	Cynnydd:
PAB 096	Crynodeb o'r ffigurau mewn perthynas â Hysbysiadau Gwasgaru (a35 o'r Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlisma).	Cwblhawyd
PAB 097	Cyflwyno data trin galwadau heddluoedd eraill Cymru i'r Bwrdd Plisma (BP) ar 11 Medi i'w gymharu â data HDP.	Cwblhawyd
PAB 098	Rhoi data am fynychwyr gwirfoddol i'r CHTh.	Cwblhawyd
PAB 099	Yr Heddlu i ymgysylltu â SCHTh ynghylch dyddiadau ymweliadau Prif Erlynydd y Goron Cymru â Phencadlys yr Heddlu.	Cwblhawyd
PAB 100	Y DBG i ddiweddarau CHTh yn dilyn cyfarfod â phennaeth yr ASP ar 7 Awst.	Cwblhawyd
PAB 101	Y Bwrdd Perfformiad a Chanlyniadau i adolygu'r gyfradd canlyniadau isel (o fewn 30 diwrnod) ar gyfer meddu ar arf bygythiol a throseddau trefn	Yn parhau – wedi'i gario drosodd i

	gyhoeddus.	gyfarfod Chwefror 2019.
PAB 102	Pob adroddiad ariannol yn y dyfodol i gynnwys canlyniad a ragwelir yn ogystal â'r canlyniad ar gyfer y flwyddyn hyd yn hyn.	Cwblhawyd
PAB 103	Adrodd am ganlyniadau a diweddariadau'r Grŵp Aur yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona ar 11 Medi.	Cwblhawyd
PAB 104	Trafod gadael yr UE mewn perthynas â chynlluniau wrth gefn yng nghyfarfod Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu fis Tachwedd.	Cwblhawyd
PAB 105	Tîm Ymgysylltu SCHTh i archwilio i gyfleoedd ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd ar ôl dod ag Ymgyrch Cynefin i ben.	Cwblhawyd
PAB 106	Cynnwys niferoedd staff yr heddlu yn adroddiad lles Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu.	Cwblhawyd
PAB 107	Rhannu ôl-drafodaeth AHEM â'r CHTh gyda chynllun HDP ar gyfer y dyfodol o ran unplygrwydd data trosedd.	Cwblhawyd
PAB 108	Diwygio gwefan yr heddlu gan fod manylion cyswllt ar gyfer cwyno'n dangos SCHTh fel y pwynt cyswllt, sy'n anghywir. Mae angen i'r manylion hyn adlewyrchu'r ffaith bod y Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus yn dod o dan yr Adran Safonau Proffesiynol yn awr.	Cwblhawyd
PAB 109	Y CC/PSA i ddatblygu sefyllfa derfynol mewn perthynas ag atebolrwydd TAW.	Yn parhau

1 Croeso ac ymddiheuriadau

2 Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Atebolrwydd a gynhaliwyd ar 6 Awst a Materion yn Codi.

Dywedodd y CHTh wrth y Bwrdd y byddai cyfarfodydd Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu'n cael eu recordio a'u darlledu ar wefan SCHTh o 7 Mai 2019. Daw'r penderfyniad hwn yn dilyn ceisiadau gan aelodau o'r cyhoedd mewn digwyddiadau ymgysylltu amrywiol i gyfarfodydd Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu gael eu darlledu ar y we. Awgrymodd y PG y dylid cynnwys y gymuned fusnes yng nghyfarfodydd Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu (BAH) yn y dyfodol er mwyn annog cynulleidfa ehangach o drafodaethau BAH.

Cam Gweithredu – Emma Northcote i roi cyngor a chymorth mewn perthynas â darlledu cyfarfodydd BAH ar y we.

Cam Gweithredu – SCHTh i wahodd cymunedau busnes lleol i gyfarfodydd BAH yn y dyfodol yn dilyn awgrym gan y PG.

PAB 090 - *Y DBG Richard Lewis i drafod cwblhau dadansoddi'r Arolwg Dioddefwyr gan y Tîm Gwella Parhaus yn y Grŵp Dioddefwyr a Thystion* – Mae cyfarfod nesaf y Grŵp Dioddefwyr a Thystion wedi'i drefnu er mwyn penderfynu ar ffurf arolygon bodlonrwydd dioddefwyr yn y dyfodol a sut all y grŵp wella'i broses o fwydo tystiolaeth i Fwrdd Perfformiad yr Heddlu er ystyriaeth.

PAB 097 - *Cyflwyno data trin galwadau heddluoedd eraill Cymru i'r Bwrdd Plismona (BP) ar 11 Medi i'w gymharu â data HDP* - Holodd y CHTh ynghylch lefelau gweithlu presennol Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu. Dywedodd y PGC/DD y gwnaed penderfyniad yn y gorffennol i gael 10% yn fwy o weithwyr nag sydd angen ar gyfer y tîm trin galwadau gan fod nifer y staff sy'n gadael yn uchel. Dywedodd y PGC/DD fod sefyllfa'r tîm yn fwy sefydlog ar hyn o bryd o ran adnoddau, ac o ganlyniad i gyfyngiadau ariannol o fewn yr Heddlu, dilëwyd y 10% ychwanegol ac mae gwell cynlluniau ar gyfer olyniaeth a blaengynllunio bellach mewn grym. Cyfeiriodd y CHTh at ymweliad gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu, Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddu a Phrif Swyddog Ariannol Gwent ym mis Hydref a arweiniodd at ganmoliaeth mewn perthynas â pha mor hawdd mae trinwyr galwadau HDP yn cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.

PAB 101 - *Y Bwrdd Perfformiad a Chanlyniadau i adolygu'r gyfradd canlyniadau isel (o fewn 30 diwrnod) ar gyfer troseddau trefn gyhoeddus a meddu ar arf bygythiol* - Mae Kerrie Phillips yn cyflawni gwaith ar y pwnc hwn ar hyn o bryd, fell gofynnodd y DBG/DD am i'r cam gweithredu gael ei gario drosodd i gyfarfod nesaf BAH.

PAB 104 - *Trafod cynlluniau wrth gefn mewn perthynas â gadael yr UE yng nghyfarfod Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu fis Tachwedd* – Roedd y CHTh yn fodlon bod gwaith yn mynd rhagddo ar lefel foddhaol o ran gadael yr UE yn dilyn diweddariadau mewn cyfarfodydd amrywiol eraill yr oedd wedi bod ynddynt yn ystod y chwarter diwethaf.

3 – Adroddiad perfformiad yr heddlu – Chwarter 1

Cafwyd trafodaeth fer mewn perthynas â HDP yn gwirfoddoli i fod yn gynllun peilot ar gyfer Datganiad Rheoli'r Heddlu (DRhH) AHGTAEM (Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi). Holodd y CHTh am y gwerth a ychwanegir o ystyried yr ymdrech sy'n gysylltiedig â'r Datganiad. Dywedwyd wrtho fod DRhH yn cael ei ddefnyddio mewn cyfarfodydd ac wrth greu amcanion strategol drwy'r broses dasgio, gan sicrhau fod pob rhan o'r datganiad yn eistedd o fewn y

strwythur llywodraethu. Dywedodd y DBG/DD fod AHGTAEM yn aml wedi holi sut oedd HDP yn defnyddio DRhH fel rhan o'u harchwiliad diwethaf, gan arwain y DBG/DD i ddisgwyl cwestiynau pellach yn ystod yr archwiliad nesaf ynglŷn â'r ffordd y mae amcanion y datganiad wedi'u gweithredu ar draws yr heddlu.

Nododd y CHTH fod profiad cyffredinol defnyddwyr HDP yn 93% ym mis Medi 2018. Nododd hefyd mai dim ond 65% o'r cyhoedd sy'n fodlon â'r ffordd maen nhw'n cael gwybodaeth am eu hachos. Ers mis Hydref 2017, bu'r agwedd hon yn aml yn is na 74%. Dywedodd y PG fod y tîm Prif Swyddogion wedi datgan yn glir wrth bob swyddog fod rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cyhoedd am ddatblygiad eu hachos yn flaenoriaeth. Atgyfnerthir hyn mewn cyfarfodydd ar gyfer rhingylliaid ac yn lleol mewn Unedau Rheoli Sylfaenol (URS). Dywedodd y PGC/DD fod yr Uwch-arolygydd Ross Evans, Comander URS newydd yn Sir Benfro, yn arwain ar yr ochr Plismona Tiriogaethol ar gyfer Ymchwiliadau, Dioddefwyr a Thystion, a'i fod wedi bod yn gweithio gyda Thîm Goleudy er mwyn adnewyddu'r pecyn 'Gofalu', sef y brand a ddefnyddir gan yr heddlu. Dywedodd y CHTH fod gwasanaeth Cyngor ar Bopeth ar gyfer tystion yn cael ei dynnu nôl yn Llundain a bod yr Heddlu Metropolitaidd yn comisiynu pecyn arddull Cyngor ar Bopeth ar gyfer tystion. Mae SCHTh yn ystyried y cam gweithredu hwn sy'n parhau. Dywedodd y PS fod trafodaeth yn y Bwrdd Perfformiad a Chanlyniadau mewn perthynas â dadansoddi'r mathau o alwadau a dderbynnir drwy'r rhif 101 yn nodi fod llawer yn ymwneud â dilyn achosion cyfredol. Dywedodd y DBG/DD mai 'Opswn 3' ar y llinell 101 oedd hyn, a rhoddodd wybod i'r Bwrdd fod categorïau amrywiol o fewn pob dewis. Gallai'r cyhoedd ddewis Opswn 3 ar gyfer 5 neu 6 o gategorïau gwahanol, gan ei wneud yn amhosibl dweud â hyder eu bod nhw'n galw er mwyn dilyn achos. Dywedodd y DBG/DD fod angen gwaith dadansoddi pellach er mwyn llwyr ddeall y galw. Holodd y CHTH sut oedd y dull adrodd ar-lein 'Olrhain Fy Nhrosedd' yn cael ei ddefnyddio gan y cyhoedd. Dywedwyd wrtho mai dim ond 1% o'r cyhoedd sy'n defnyddio'r system ar hyn o bryd. Ychwanegodd EN fod HDP yn ailgyfeirio'r cyhoedd i'r ffurflen adrodd ar-lein pan mae troseddau'n cael eu hadrodd drwy gyfryngau cymdeithasol.

Rhannodd y CHTH lythyr gan aelod o'r cyhoedd mewn perthynas â gweithredoedd PC Sarah Green a PC Sam Dawson. Roedd y llythyr yn canmol gwaith da'r swyddogion, a dywedodd y CHTH ei fod llawn mor bwysig tynnu sylw at y gwaith da mae swyddogion yn ei wneud bob dydd ag ydyw i fynd i'r afael â meysydd sydd angen eu gwella.

Canmolodd y CHTH y gostyngiad yn lefelau'r cwynion a honiadau a wnaed o fis Medi 2017 (26 cwyn a oedd yn cynnwys 44 honiad) i fis Medi 2018 (17 cwyn a oedd yn cynnwys 24 honiad). Hefyd, canmolodd ffigwr HDP o ran Datrysiadau Lleol ar gyfer y flwyddyn hyd yn hyn, sy'n sefyll ar gyfartaledd o 60 diwrnod gwaith o'i gymharu â chyfartaledd cenedlaethol o 67. Dywedodd y PG fod ffactorau cyfrannol mewn perthynas â hyn yn cynnwys cyfarfodydd rheolaidd rhwng prif swyddogion a'r Adran

Safonau Proffesiynol (ASP). Holodd y CHTH am y newid diwylliannol sydd wedi arwain at y newidiadau hyn, a chafodd am waith rhagweithiol gan yr ASP, gan gynnwys yr ymgyrchoedd i wneud staff yn ymwybodol o ymddygiad priodol ac annog adrodd am ymddygiad amhriodol. Cyflwynir trafodaethau'r Grŵp Cyfeiriad Proffesiynol a'r Pwyllgor Moeseg i Brif Swyddogion er mwyn sicrhau bod unrhyw benderfyniadau'n cael eu hystyried gan y Grŵp Prif Swyddogion. Dywedodd y PS fod cynrychiolydd o Swyddfa Annibynnol Cwynion yr Heddlu wedi canmol gwelliant yr Adran Safonau Proffesiynol yn ystod trafodaethau diweddar.

Holodd y CHTH Brif Swyddogion mewn perthynas â'r 49 maes byw ar gyfer gwella gan AHGTAEM. Dywedodd y PG fod gan HDP dros 200 o feysydd i'w gwella 12-18 mis nôl gan AHGTAEM, a bod hyn wedi gostwng yn sylweddol o dan arweiniad y DBG. Ers hynny, mae HDP wedi derbyn nifer o archwiliadau gan AHGTAEM, gan gynnwys Dalfeydd ac Unplygrwydd Data Trosedd, sydd wedi achosi'r nifer i gynyddu rhywfaint. Mae'r 49 hefyd yn cynnwys argymhellion cenedlaethol gan AHGTAEM ar gyfer pob heddlu sydd ddim yn cael ei dargedu'n benodol at HDP e.e. mewn perthynas â Throseddau Casineb.

Cam Gweithredu – Y CHTH i gael mynediad at daenlen argymhellion AHGTAEM.

Holodd y CHTH pam fod nifer y troseddau rhwng mis Mai a mis Medi 2018 ar eu huchaf ers mis Hydref 2016. Dywedodd y DBG/DD fod y cyfnod hir o dywydd poeth iawn yn ystod gwanwyn a haf 2018 wedi arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n mynd allan i yfed. Yn ei dro, arweiniodd hynny at gynnydd yn y mathau o droseddau yn ystod y cyfnod hwn. Profodd Canolfan Reoli'r Heddlu fwy o alwadau mewn un mis yng Ngorffennaf 2018 nag yr oedd wedi profi ers 2002. Ynghyd â chywirdeb data trosedd a gwell adrodd o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol, arweiniodd y troseddau tebyg hynny a ddigwyddodd yn ystod y tywydd twym at gynnydd yn nifer y troseddau y derbyniwyd adroddiadau amdanynt. Dywedodd y PG y bu cynnydd o ran adroddiadau am ladradau peiriannau, da byw ac offer fferm ers cyflwyno'r Tîm Troseddau Gwledig, sy'n cynnig gwell gwasanaeth i gymunedau gwledig. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r archwiliad mewnol sydd ar fin cael ei gynnal ledled yr ardal heddlu. Bydd yr archwiliad yn canolbwyntio ar unplygrwydd data trosedd drwy'r Grŵp Strategol ar gyfer Adrodd am Droseddau, sy'n cael ei gadeirio gan y DBG/DD. Tynnodd y PG sylw hefyd at newidiadau mewn arferion cofnodi, sydd wedi arwain at ganfyddiad o gynnydd mewn mathau penodol o droseddau. Er enghraifft, mae troseddau trefn gyhoeddus wedi gweld cynnydd o 14% ar ôl i Aflonyddu a Stelcio ddod o dan faner trefn gyhoeddus yn ddiweddar. Ystyrir hyn yn ffactor sydd wedi cyfrannu at gynnydd mewn rhai mathau o droseddau.

Holodd y CHTH sut mae HDP yn paratoi ei hun yn flynyddol ar gyfer mis Gorffennaf pan mae nifer y troseddau, yn ôl pob tebyg, ar eu huchaf. Dywedodd y DBG/DD

mai Sir Benfro yw prif ffocws HDP ar gyfer y diwydiant twristiaid. Mae Ymgyrch Lion yn cael ei chynnal yn flynyddol yn Sir Benfro er mwyn lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol ledled y sir. Bellach, mae Ymgyrch Lion yn ymgyrch a arweinig gan dechnoleg gwybodaeth, lle mae staff sy'n cael eu harallgyfeirio o fan arall yn y sefydliad i Sir Benfro'n medru deall daearyddiaeth Dinbych-y-pysgod yn ogystal â staff sy'n gweithio yno pob dydd. Aeth y DBG/DD yn ei flaen i ddweud bod gwyliau blynyddol yn cael ei gyfyngu yn ystod yr haf, a bod y Grŵp Ansawdd Tasgio'n monitro hyn. Holodd y CHTh pa un ai a oedd asedau megis Swyddogion Cyswllt Ysgolion yn cael eu hadleoli yn ystod yr haf. Dywedodd y PGC/DD fod llai o hyfforddiant yn digwydd dros yr haf a bod Swyddogion Cyswllt Ysgolion, swyddogion gwirfoddol, gwirfoddolwyr a swyddogion ymholiadau'n cael eu hadleoli dros y gwyliau haf.

Holodd y CHTh sut oedd yr Heddlu'n bwriadu cydnabod Diwrnod Cenedlaethol Troseddau Gwledig ar 8 Tachwedd. Dywedodd Emma Northcote wrth y Bwrdd y byddai gwybodaeth am faterion gweithredol ar 8 Tachwedd yn cael ei chyhoeddi ar gyfryngau cymdeithasol ar ôl i'r diwrnod hwnnw fynd heibio.

Holodd y CHTh pam fod cynnydd sylweddol yn nifer yr achosion o ladrata yn ystod misoedd yr haf. Bu cynnydd o 4 i 10 rhwng Ebrill a Gorffennaf 2018. Nododd y PG y gallai hyn fod yn gysylltiedig â gwaith Llinellau Cyffur. Mae nifer o grwpiau troseddu trefnedig yn dod mewn i'r ardal heddlu gan ganolbwyntio'n arbennig ar siopau a garejys bach ym Mhowys.

Roedd hi'n dda gan y CHTh gydnabod fod lefelau digwyddiadau ym mis Medi 2018 yn is na lefelau Medi 2017. Sicrhaodd y DBG/DD y CHTh fod y Grŵp Prif Swyddogion yn ymweld â Chanolfan Gyfathrebu'r Heddlu'n rheolaidd i gael darlun dyddiol o dueddiadau trosedd er mwyn sicrhau nad ydynt yn llwyr ddibynnol ar ffigurau fel y rhai a gyflwynir yn yr Adroddiad Perfformiad chwarterol. Roedd hi'n dda gan y CHTh weld gostyngiad yn nifer y digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn 2018. Dywedodd y PGC/DD nad oes gan HDP unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol perygl uwch ar ei system ar hyn o bryd, a phan mae digwyddiad yn digwydd, mae hyn ar lefelau ffigwr sengl ac mae swyddogion yn ymyrryd ar lefel isel er mwyn atal digwyddiadau rhag gwaethygu.

Holodd y CHTh pam nad yw galwadau ar gyfer ymateb syth yng Ngheredigion a Phowys yn bodloni'r targed o 20 munud yn rheolaidd. Dywedodd y PG fod Heddlu Durham, sydd â chyfradd o 50% mewn perthynas â bodloni targedau o ran galwadau am wasanaeth, wedi derbyn gradd 'Ardderchog' yn ddiweddar gan AHGTAEM, tra bod HDP yn cynnal cyfradd o 75%. Rhannau bach o Geredigion a Phowys sydd â'r gyfradd isaf o ran bodloni'r targed o 20 munud, fodd bynnag, gall cyfleoedd galw isafol o gwmpas ail-lunio canolfannau liniaru rhywfaint o'r oedi. Pwysleisiodd y DBG/DD mai adeiladu gorsafoedd heddlu ychwanegol er mwyn

darparu ar gyfer nifer isafol o alwadau fyddai'r datrysiad ar gyfer bodloni'r targed ar gyfer pob galwad.

Daeth y PG â'r drafodaeth ynglŷn ag Adroddiad Perfformiad yr Heddlu i ben drwy ddweud mai HDP yw'r ail orau yn y wlad yn awr am ei gyfradd canlyniadau yn y Llys Ynadon a Llys y Goron ar gyfer troseddau rhywiol a thrais. Canmolodd y CHTH yr Heddlu am ei berfformiad gwell.

4 – Perfformiad Ariannol – Chwarter 1

Dywedodd y CC fod HDP uwchlaw targed ar gyfer ei sefyllfa ddiwedd flwyddyn o £486,000 erbyn diwedd Medi 2018. Dywedodd y CC y byddai sawl swyddog yn gadael yr Heddlu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, ac nad oes swyddogion newydd yn cael eu derbyn tan fis Mawrth 2019. Disgwylir y bydd y gyllideb ar gyfer goramser yn cael ei gorwario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, fodd bynnag, mae'r CC wrthi'n asesu ble mae modd gwneud arbedion mewn meysydd eraill er mwyn sicrhau bod y ffigwr cyffredinol o fewn y gyllideb. Holodd y CHTH am effaith unigolion sydd newydd eu recriwtio i'r tîm Cyllid ar yr Heddlu. Dywedodd y CC fod pwysau ariannol gweithredol y gall tîm mwy eu rheoli'n well wedi dod i'r amlwg, a bod modd datblygu gwaith pellach ar gynhyrchu incwm. Diolchodd y CHTH i'r CC am ei waith parhaus ar yr agweddau ariannol amrywiol sydd wedi digwydd ers cyfarfod diwethaf BAH.

5 - Diweddariad ynglŷn â'r Cynllun Cyflawni Heddlu a Throseddu

a) Bodlonrwydd Dioddefwyr

Dywedodd y DBG/DD mai ei effaith ar ganran y troseddau y pennwyd canlyniad ar eu cyfer o fewn 30 diwrnod oedd canlyniad difwriad ond cadarnhaol gwaith Goleudy ers ei sefydlu 17 mis yn ôl. Er nad oes gan y gwasanaeth awdurdod i bennu camau gweithredu ar gyfer swyddogion heddlu, mae cysylltiad rheolaidd tîm Goleudy â nhw er mwyn ceisio diweddariadau ar gyfer dioddefwyr wedi rhoi hwb i swyddogion geisio datrysiad cynt. Troseddau amrywiol yn erbyn cymdeithas a throseddau rhywiol sydd wedi gweld y nifer mwyaf o achosion yn derbyn canlyniad o fewn 30 diwrnod, gan wella o 35% i 60% a 23% i 39% yn ôl eu trefn.

b) Hyder Cyhoeddus

Dywedodd Emma Northcote ei bod hi wedi mynd i gyfarfod cenedlaethol ar Gyfathrebu Digidol a chanfu bod HDP yn allgrraig gydag ymgysylltiad o 400% â'i safleoedd cyfryngau cymdeithasol. Mae timoedd cyfathrebu HDP wrthi'n ymchwilio i'r rheswm dros hyn ar hyn o bryd.

c) Iechyd a Lles Sefydliadol

Cydnabu'r CHTh fod data sefydliadol yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Plismona (BP) yn fisol yn awr. Dywedodd y PG fod cynllun gweithlu clir mewn grym i gyd-fynd â chyfnodau lle'r oedd sawl aelod staff yn gadael y sefydliad. Holodd Michael James, aelod o'r Panel Heddlu a Throseddu, pa un ai a oedd colli swyddogion profiadol sy'n ymddeol o'r heddlu'n bryder ar gyfer y Grŵp Prif Swyddogion. Dywedodd y PG y dylid ystyried cyfleoedd ar gyfer moderneiddio'r gweithlu fel rhywbeth cadarnhaol wrth i bobl adael, ac yn gyfle i amrywio'r gweithlu ac archwilio i ymagweddau eraill. Pennir cyfnodau trosglwyddo clir pan mae swyddogion yn ymddeol er mwyn sicrhau bod y sgiliau a'r cyfrifoldebau'n cael eu hail ddyrannu'n briodol.

Dywedodd y PG fod gweithiwr iechyd meddwl wedi'i benodi fel rhan o'r Tîm Iechyd Galwedigaethol. Ystyriwyd hyn fel cam posibl ymlaen gan AHGTAEM.

ch) AHGTAEM (Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi)

Teimlwyd fod trafodaeth flaenorol ar AHGTAEM drwy gydol y cyfarfod yn ddigon ar gyfer y pwnc hwn, er bod adroddiad gan yr Arolygydd Stuart Bell wedi'i gydnabod.

d) Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu

Mynegodd y CHTh bryderon dros y ffaith bod trosiant staff yn yr adran fetio'n uchel a'r ffaith bod canran o staff HDP dal heb eu fetio. Dywedodd y PG mai'r nifer sydd heb eu fetio ar hyn o bryd yw 12% a bod addewid wedi'i wneud i AHGTAEM y byddai'r dagfa'n cael ei chlirio erbyn Nadolig 2018. Mae'r Grŵp Prif Swyddogion wedi sicrhau bod adnoddau ychwanegol yn cael eu cyfeirio i'r adran fetio.

10 – Unrhyw fusnes arall

a) Cartref Ar-lein Sengl – Cytundeb Adran 22A

Dywedodd y PS fod y cytundeb wedi'i ddarparu er ystyriaeth. Mae'r cytundeb yn cael ei ystyried ar hyn o bryd gan y pedwar heddlu yng Nghymru ac mae wedi'i ystyried eisoes gan dîm cyfreithiol HDP. Mae angen ymateb erbyn 12 Tachwedd.

b) Craffu Dwys – Defnydd o Rym

Cafodd yr adroddiad dderbyniad da gan AHGTAEM ac mae SCHTh wedi derbyn llythyr gan y Grŵp Prif Swyddogion. Bydd hwn yn cael ei gyflwyno i'r Panel Heddlu

a Throseddu yn awr fel enghraifft o'r ffordd y mae CHTh yn rhyddhau ei gyfrifoldeb statudol o ddal y Prif Gwnstabl i gyfrif.

c) Cwestiynau gan y cyhoedd drwy'r Panel Heddlu a Throseddu

Holwyd cyfres o gwestiynau a roddwyd i'r Panel Heddlu a Throseddu er sylw'r CHTh i'r Grŵp Prif Swyddogion. Er bod y cwestiynau wedi'u cyfeirio at y CHTh, yn achos materion gweithredol eu natur, roedd angen eu hailgyfeirio i'r PG. Rhoddodd y Grŵp Prif Swyddogion ddiweddariadau llafar ar gwestiynau a oedd yn ymwneud â phlisma'r ffyrdd, pobl ifainc yn eu harddegau'n cymryd cyffuriau, a beicwyr yn Sir Gaerfyrddin.

Cafwyd trafodaeth fer mewn perthynas â'r posibilrwydd o gael adran 'Holi'r Prif Gwnstabl' ar wefan SCHTh.

ch) Cydymdeimladau

Cydymdeimlodd y CHTh â theulu un o swyddogion HDP a fu farw, sef PC Colin Symmonds o Aberhonddu.

CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 06/11/2018		
Rhif y Cam Gweithredu	Crynodeb o'r Cam Gweithredu	I'w symud yn ei flaen gan:
PAB 110	Emma Northcote i roi cyngor a chymorth mewn perthynas â darlledu cyfarfodydd BAH ar y we.	EN
PAB 111	SCHTh i wahodd cymunedau busnes lleol i gyfarfodydd BAH yn y dyfodol yn dilyn awgrym gan y PG.	MH
PAB 112	Y CHTh i gael mynediad at daenlen argymhellion AHGTAEM.	Yr Heddlu

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:

10:00 – 13:00 12 Chwefror, Ysgol Dyffryn Aman, Stryd Marged, Rhydaman SA18 2NW